Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Amlwch
# Ysgol Gynradd Amlwch
# Amlwch
# Ynys Môn
# LL68 9DU

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a’i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae’r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae’r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy’n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau’n gorbwyso’r meysydd i’w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae’r meysydd pwysig i’w gwella yn gorbwyso’r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/05/2012**

## Ynglŷn â'r cylch

Mae Cylch Meithrin Amlwch yn gylch cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd Amlwch, Amlwch, Ynys Môn.  Daw'r holl blant sy'n mynychu'r cylch o'r dref a'r ardal gyfagos.  Cydnabyddir nad yw'r ardal yn freintiedig nac ychwaith dan anfantais gymdeithasol neu economaidd.

Mae'r cylch wedi ei leoli yn yr ysgol ers 2009 ac mae'n rhannu'r defnydd o'r adeilad a'r ardal allanol gyda'r ysgol.

Dywed y cylch daw tua hanner y plant o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Mae'r plant yn cynrychioli'r ystod lawn o alluoedd ac mae'r cylch yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae dau blentyn yn y grŵp cyfredol wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cylch yn derbyn cefnogaeth gan asiantaethau allanol i gefnogi'r plant ag anghenion ychwanegol.  Mae un plentyn o gefndir ethnig lleiafrifol ar hyn o bryd a daw neb o gartrefi sydd o dan anfantais gymdeithasol.

Mae'r cylch wedi ei gofrestru am uchafswm o 16 o blant ac yn derbyn plant o ddwy flwydd a hanner oed.  Mae 17 o blant ar hyn o bryd yn mynychu'r cylch ar ryw adeg o'r wythnos.  Mae 8 ohonynt, sy'n cael eu hariannu, yn dair blwydd oed.  Mae'r Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol yn cefnogi'r cylch.

Mae'r arweinydd yn ei swydd ers 2012.  Mae tri aelod o staff yn ei chynorthwyo'n rhan amser.  Mae ganddynt i gyd gymwysterau addas.

Ceir llyfryn sy'n llawn o wybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy'n eu darparu â manylion perthnasol am y cylch.  Daw rhieni a gofalwyr â'u plant i mewn i'r cylch sy'n gyfle i gael cyfarfod â'r staff os oes angen.  Mae'r cylch ar agor am bedwar bore'r wythnos rhwng 8.50yb ac 11.20yb a dau brynhawn rhwng 12.30yp a 3yp.

Mae'r cylch wedi'i gofrestru gyda'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.  Mae pwyllgor rheoli yn goruchwylio gwaith y cylch.

Arolygwyd y cylch diwethaf gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Ebrill 2011.  Cafodd y cylch arolygiad gan Estyn yn 2006.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae newidiadau diweddar yn y staffio ac mae'r arweinydd, mwyafrif y staff a'r pwyllgor rheoli yn newydd i'w rolau. Mae perfformiad presennol y cylch yn ddigonol.

Mae'r cryfderau yn cynnwys:

- safonau da i waith y plant;
- deallusrwydd cyson y plant o'u lles, iechyd a diogelwch;
- cysondeb cadarn i'r gofal, cymorth ac arweiniad;
- defnydd ac ansawdd y staff o'r Gymraeg; a
- phartneriaethau da gydag asiantaethau allanol sy'n cefnogi gwaith y cylch.

Mae'r meysydd i'w gwella yn cynnwys:

- herio'r plant yn unol â'u galluoedd trwy amcanion dysgu clir;
- datblygu cynllunio effeithiol i wella'r cyfleoedd tu allan i'r dosbarth;
- darparu cyfleoedd i'r plant er mwyn datblygu eu hymwybyddiaeth o'u cymuned a'r bobl sy'n byw a gweithio yn eu cymuned;
- cofnodi asesiadau'n gyson a nodi targedau penodol i symud y plant ymlaen;
- darparu'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth o'r byd ehangach ac ymwybyddiaeth y plant o ddinasyddiaeth fyd eang;
- sicrhau fod yr hunan werthuso a'r cynllun datblygu newydd yn effeithio'n llwyddiannus ar strategaeth hir dymor y cylch; a
- mynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r cylch yn dda oherwydd:

- mae'r arweinydd egnïol a'r pwyllgor rheoli newydd yn dechrau darparu cyfeiriad strategol clir i waith y cylch, sy'n seiliedig ar hunan werthuso manylach;
- dengys datblygiadau diweddar fod gwelliannau er lles y plant;
- mae gan yr holl staff brwdfrydedd ac agweddau cadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant;
- mae'r staff yn cyd-weithio'n dda; ac
- mae cymorth da yn cael eu defnyddio'n gyson i dargedu agweddau penodol a phriodol sydd angen gwelliannau.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r cylch i:

A1 gynllunio ar y cyd fel staff a gosod amcanion dysgu clir i’r plant ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws er mwyn herio pob plentyn yn briodol;

A2 sicrhau bod asesiadau dyddiol yn cael eu cwblhau’n gyson ac maent yn arwain yn uniongyrchol at dargedau plant unigol;

A3 darparu gwell cyfleoedd i’r plant i ymweld a dysgu am eu cymuned a chodi eu hymwybyddiaeth o’r byd ehangach a dinasyddiaeth fyd eang;

A4 datblygu a chyfoethogi yr adnoddau a’r profiadau yn yr ardal allanol; a

A5 datblygu systemau’r pwyllgor rheoli, yr arweinydd a’r staff er mwyn ymsefydlu’r cynllunio strategol a’r hunan arfarnu ym mywyd dyddiol y cylch.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y cylch yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y cylch.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae safonau dechreuol bron pob un plentyn wrth ddechrau'r cylch yn dda. Mae bron pob un plentyn yn cyflawni safonau da ac yn gwneud y cynnydd priodol ymhob maes dysgu wrth ystyried eu mannau cychwyn. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng safonau grwpiau gwahanol o blant yn y cylch.

Mae bron pob un plentyn yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu datblygiad o'u medrau llythrennedd yn yr iaith Gymraeg. Tra bod ychydig iawn o blant yn anfodlon i ddefnyddio'r iaith ar adegau, mae bron pob un â dealltwriaeth dda o'r iaith. Mae gan bron pob un o'r plant fedrau gwrando sydd wedi'u datblygu'n dda. Mae bron pob un plentyn yn mwynhau clywed stori ac yn awyddus i gyfrannu i'r hyn a ddarllenir iddynt.

Mae'r rhan fwyaf yn ateb cwestiynau yn frwdfrydig sy'n dangos yn glir eu dealltwriaeth ddatblygol o'r iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn synhwyrol i drafodaethau grŵp ac yn deall newidiadau i'r tywydd a thymheredd drwy weithgareddau ag iâ. Nodwedd dda arall o'u gallu cynyddol yw'r ffaith iddynt ymateb yn y Gymraeg gydag ychydig iawn o anogaeth i liwiau a rhifau.

Mae llawer o blant yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol. Maent yn dal llyfrau yn briodol ac yn astudio lluniau a phrint gyda diddordeb. Maent yn adnabod prif gymeriadau mewn stori fel Elen Benfelen ac yn trafod cynnwys y stori yn frwdfrydig gyda'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu a nodwedd nodedig o'u hysgrifennu cynnar yw eu bod yn deall pwrpas ysgrifennu drwy dasgau ymarferol. Maent felly yn gweld y pwrpas i wneud marciau a cheisio gwneud synnwyr o'u hysgrifen gynnar. Mae ychydig iawn o blant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor yn annibynnol ac mewn ffurf eithaf adnabyddus.

Mae bron pob un plentyn yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda drwy ddefnydd ymarferol o rif, drwy ddefnyddio geirfa fathemategol fel 'llai na' neu 'fwy na', 'hir' a 'hirach' a thrwy ddefnyddio siapiau dau a thri dimensiwn. Mae'r rhan fwyaf o blant yn medru grwpio gwrthrychau yn ôl lliw.

Mae llawer o blant yn defnyddio offer electronig yn effeithiol. Maent yn defnyddio'r cyfrifiadur yn hyderus drwy reoli'r cyfarpar priodol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn creu lluniau diddorol gyda phaent a dawnsio yn frwdfrydig i gerddoriaeth. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o stôr o ganeuon a hwiangerddi Cymreig gan eu canu gyda brwdfrydedd.

Mae bron pob un plentyn yn dangos diddordeb llawn ym mhob gweithgaredd ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol o amser. Maent yn gwneud penderfyniadau a gweithio'n annibynnol yn dda tu fewn yr adeilad ac yn defnyddio'r cyfarpar sydd ar gael yn briodol yn yr ardal allanol. Mae bron pob un plentyn yn

ymgymryd yn frwdfrydig i'r ystod eang o weithgareddau a ddarperir ar eu cyfer sy'n datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus.

**Lles: Da**

Mae gan bron pob un plentyn ddealltwriaeth briodol yn unol â'u hoedran o sut gallant gadw'n iach. Gwyddant, er enghraifft, pryd mae angen iddynt olchi eu dwylo gan wneud hyn heb fawr o ymyrraeth. Mae gan y rhan fwyaf o'r plant ddealltwriaeth da bod deiet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau.

Mae agwedd bron pob un plentyn at eu dysgu yn dda. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn y gweithgareddau a pharatoir ar eu cyfer. Mae bron pob un plentyn yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau arwyddocaol o amser ac yn gwneud penderfyniadau yn annibynnol.

Mae'r holl blant yn uniaethu â'i gilydd ac oedolion ac ymwelwyr yn dda. Maen nhw'n gwrtais ac yn ystyriol ac yn barod i rannu adnoddau. Mae'r holl blant yn cymryd rhan lawn ym mywyd a gweithgareddau'r cylch trwy gynnig syniadau am eu gwaith. Maent yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i awgrymu eu syniadau eu hun ac mae'r rhain, lle'n bosibl, yn cael blaenoriaeth yn nhasgau a gweithgareddau'r plant.

Nid yw'r plant yn ymwybodol iawn o'u cymuned, oherwydd nid yw'r cysylltiadau â'r gymuned yn tynnu digon o sylw'r plant at bobl eu cymuned. Drwyddi draw, nid ydy'r plant yn dangos synnwyr o berthyn i'w cymuned am eu bod ddim yn ymweld â'r gymuned yn gyson.

Mae bron pob un plentyn yn hapus ac mae'r holl blant yn derbyn gofal da sy'n rhydd o unrhyw ffurf o aflonyddwch.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Caiff amserlen a threfn y cylch eu paratoi gan yr arweinydd, fodd bynnag, gosodir amser prin i'r staff i gyfarfod i gynllunio'r cwricwlwm gyda'i gilydd. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant. Fodd bynnag, nid oes digon o her ar adegau i blant unigol i gyfatebu â'u galluoedd yng ngweithgareddau ffocws.

Mae'r cwricwlwm yn diwallu athroniaeth cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac yn cyflawni'r deilliannau a nodir yn nysgu'r plant yn effeithiol. Drwyddi draw, mae'r cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant ac yn cynnwys cyfleoedd da ar gyfer datblygu y rhan fwyaf o'r medrau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oes cynllunio effeithiol a digon o ffocws ar wella chwarae, ymchwilio ac ymholi tu allan i'r dosbarth.

Caiff cyfleoedd gwerthfawr eu cynnwys yng ngwaith dyddiol y cylch er mwyn i'r plant ddatblygu eu hunan hyder ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Er bod gweithgareddau penodol wedi'u cynllunio, mae gan y plant y rhyddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hun.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cyfleoedd effeithiol i'r holl blant ddatblygu parch at ei gilydd; cyfleoedd i ffurfio perthynas dda a'i gilydd ac oedolion; a chyfleoedd iddynt fod yn oddefgar o'i gilydd.

Darperir gweithgareddau da i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol o lythrennedd, rhifedd a chreadigrwydd. Agwedd effeithiol o brofiadau dysgu'r plant yw'r ddarpariaeth a wneir i'r plant i ddysgu'r iaith Gymraeg. Cymraeg yw'r iaith naturiol o gyfathrebu rhwng yr oedolion a'r plant. Trwy'r cyfleoedd cydlynus, mae bron pob un plentyn, beth bynnag bo'u cefndir, yn dangos eu bod yn mwynhau siarad yr iaith trwy edrych ar lyfrau stori yn y Gymraeg a chanu rhigymau.

Mae gan blant gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau dŵr a thasgau ar y cyfrifiadur, sy'n ffocysu ar fedrau llythrennedd.

Rhoddir pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel, wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Nid oes darpariaeth effeithiol i'r plant i ddysgu am wybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill. Felly, nid yw'r cylch yn darparu'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth o'r byd ehangach a chodi hymwybyddiaeth y plant o ddinasyddiaeth fyd eang sy'n briodol i'w hoedran.

Yn y gorffennol, ceir y plant cyfleoedd i hau hadau ac i ofalu am blanhigion sy'n dechrau eu dealltwriaeth am dyfiant planhigion a chynaladwyedd.

**Addysgu: Digonol**

Mae ansawdd yr addysgu â chryfderau sy'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella. Mae gan y staff wybodaeth briodol o ddatblygiad plant a dealltwriaeth sy'n datblygu o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Yn ddiweddar, mae hyfforddiant gan yr awdurdod lleol wedi cefnogi datblygiad proffesiynol y staff yn dda ynglŷn â gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae deallusrwydd addas gan y staff o'u rolau a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Fodd bynnag, wrth gyflwyno gweithgareddau ffocws, nid oes digon o gyfeiriadau tuag at amcanion dysgu y gweithgareddau ffocws. Felly, nid ydy'r plant yn sicr ar sut i lwyddo wrth weithredu'r dasg.

Mae system o rannu dyletswyddau yn bodoli ac mae gan y staff wybodaeth addas o anghenion nifer fach o blant. Fodd bynnag, heblaw am yr arweinydd, nid ydynt yn nodi cyflawniadau a chynnydd y plant yn rheolaidd. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'u cyfeirio gan oedolion, yn enwedig tu fewn. Mae'r holl blant yn cael rhyddid i ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol.

Mae'r staff yn darparu amgylchedd mewnol diddorol sydd wedi paratoi'n dda, sy'n sicrhau'n llwyddiannus fod y plant yn cymryd rhan ac yn mwynhau. Mae'r staff yn modelu'r Gymraeg yn gyson dda a defnyddio cwestiynu yn effeithiol i ddatblygu medrau iaith a datblygiad mathemategol y plant.

Mae'r asesu'n ddigonol. Er bod y staff yn adnabod y plant yn dda, nid ydynt yn cynllunio y camau nesaf yn eu haddysg gyda digon o fanylder. Ceir cofnodion addas o gyflawniadau'r plant, fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu defnyddio'n gyson i symud

y plant ymlaen i'r camau nesaf yn eu dysgu.  Mae'r cofnodion ar gael i rieni a'r ysgol leol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae darpariaeth y cylch ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant yn dda.  Mae bron pob plentyn yn mwynhau eu hamser yn y cylch.  Wrth gyrraedd maen nhw'n dangos synnwyr o ddisgwyliad ac yn awyddus i gymryd rhan.  Maent yn ymgymryd yn frwdfrydig â'r gweithgareddau a osodir ar eu cyfer.  Mae rhan fwyaf o'r cwricwlwm yn datblygu ac yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol.

Mae darpariaeth dda gan y cylch ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant.  Nid yw'r elfen ddiwylliannol mor effeithiol.  Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch, parch a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir yn cael eu meithrin drwy weithgareddau dyddiol ac yn cael eu derbyn yn ddiau.  Mae bron pob plentyn yn gwybod, deall ac yn derbyn y safonau cymdeithasol o gyd-fyw, rhannu a derbyn barn eraill fel aelodau o gymdeithas.  Mae plant unigol yn derbyn cyfrifoldebau penodol, fel tacluso ar ôl eu bwyd, sy'n datblygu eu hunan barch.  Mae'r cylch yn uned drefnus, lle mae plant yn parchu ei gilydd ac maen nhw, yn eu tro, yn cael eu gwerthfawrogi gan y staff.

Mae staff y cylch yn wyliadwrus wrth nodi plant sydd angen cymorth arbenigol.  Maent yn gwneud defnydd o gymorth ac arweiniad proffesiynol yn effeithiol pan bo'r angen.  Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd a phriodol.  Ymdrinir y staff yn rheolaidd ag asesiadau risg trwyadl.

Mae gan y cylch bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r cylch yn ddiogel, lle mae'r drws ar gau a gât ar draws y fynedfa.  Mae'r drysau allanol ar glo a dim ond aelod o staff sy'n eu hagor, felly, nid oes neb yn medru dod i fewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni.  Mae gofal da yn cael ei gymryd wrth i'r plant gael eu casglu er mwyn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr adnabyddus.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unrhyw blentyn sy'n cael ei amau o fod angen cymorth ychwanegol yn cael ei nodi a bod eu cynnydd yn cael ei fonitro'n agos.  Arweinydd y cylch yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ac yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plentyn tebyg.

Defnyddir asiantaethau allanol a darperir cefnogaeth os oes angen.  Ar hyn o bryd, mae dau blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r cylch, drwy y gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a mabwysiadir gan y staff yn hyrwyddo ethos positif.  Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael i'w adnabod.  Mae gan bob plentyn fynediad a chyfleoedd cyfartal i'r cwricwlwm.  Mae'r ddarpariaeth a'r cynllunio o adnoddau a phrofiadau yn yr ardal allanol yn ddigonol ar hyn o bryd, er bod cyfleoedd cyfoethog ar gael ar dir ac ardaloedd chwarae'r ysgol.

Mae'r awyrgylch cartrefol a chyfeillgarwch y staff yn sicrhau bod agwedd oddefgar yn treiddio drwy'r cylch. Mae'r cylch yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sydd yn dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae pob plentyn yn mwynhau cyfleoedd cyfartal.

Mae gan staff y cylch cymwysterau a phrofiad da ac mae'r cymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol iawn. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth oruchwylio gweithgareddau. Mae'r cylch yn defnyddio'i adnoddau yn dda i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant, heblaw am yr ardal allanol. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o annibyniaeth a chyfrifoldeb.

Ar hyn o bryd, nid oes ymweliadau cyson â'r gymuned ac ymwelwyr i'r cylch. Felly, nid oes tystiolaeth glir o ddealltwriaeth y plant o'u cymuned.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pwyllgor rheoli, yr arweinydd a mwyafrif y staff yn newydd iawn i'w swyddi. Mae'r arweinydd yn egnïol ac mae hi'n gweithio'n agos gyda gweddill y staff yn i greu ethos positif, sy'n annog ac yn rhoi gwerth ar waith tîm. Mae'r cylch wedi cyflwyno nifer o strategaethau yn ddiweddar i symud y cylch ymlaen. Fodd bynnag, nid yw'r datblygiadau sydd ar waith wedi ymsefydlu'n ddigonol hyd yma i wella ansawdd.

Mae'r hyfforddiant a ddarperir yn cefnogi datblygiad proffesiynol yr arweinydd a'r staff yn dda. Erbyn hyn mae'r wybodaeth a ddatblygir yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol ac yn dechrau symud y cylch ymlaen yn strategol. Mae cyfrifoldebau penodol gan yr arweinydd i ddatblygu'r cylch fel cymuned ddysgu. Mae hi'n rhannu'r arferion newydd yn bwrpasol gyda gweddill y staff i wella'u harferion proffesiynol a safonau'r plant.

Mae'r staff yn cyfrannu'n weithredol drwy rannu cyfarwyddiadau clir â'i gilydd. Maent hefyd yn derbyn cyngor o asiantaethau allanol er mwyn gwella. Yn ystod yr arolwg, roedd ethos positif a gweledigaeth i ddarparu'r profiadau gorau posibl i'r plant.

Mae'r pwyllgor rheoli newydd yn dechrau chwarae rôl bwrpasol i fywyd y cylch. Maent nawr yn rhoi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth ac mae'r arweiniad perthnasol yn cwrdd â gofynion cyfreithiol yn llawn.

Mae'r systemau hunan werthuso a'r broses o gynllunio'n ddatblygiadol yn newydd iawn ac yn dechrau cael ei fonitro a chyfarwyddo'n dda gan y pwyllgor rheoli. Mae'r gefnogaeth o'r awdurdod lleol yn effeithiol.

Mae'r cynllun datblygu yn cael ei strwythuro'n briodol yn ôl llinynnau amser a chyfrifoldebau; fodd bynnag, nid ydy'r cynllun wedi cael yr amser priodol i effeithio ar strategaeth hir dymor y cylch. Mae'r newidiadau staffio wedi arafu ambell ardal sydd eisiau gwella, fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r prosesau newydd sydd nawr yn eu lle, yn dangos gwelliannau cadarnhaol mewn amser byr.

Mae'r cylch wedi rhoi ystyriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r broses hunanarfarnu yn newydd, fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau wedi arwain eto at wella ansawdd y ddarpariaeth ymhellach. Erbyn nawr, mae'r prosesau hunanarfarnu'n fwy systematig a chlir. Mae'r staff cyfan yn fwy ymwybodol o bwrpas ac effaith hunanarfarnu effeithiol. Mae'r rheolwyr ac arweinydd yn datblygu gwell ddealltwriaeth o gryfderau a gwendidau'r cylch. Maent nawr yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

Mae'r cynllun datblygu, sy'n deillio o'r hunanarfarniad diweddar, yn dechrau cael effaith gadarnhaol er mwyn gwella'r cylch ymhellach. Mae ffocws y cynllun yn targedu meysydd penodol ac yn dechrau herio'r cylch i wella.

Mae'r staff wedi cael eu cynnwys mewn ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu da. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol. Gwnaed cynnydd anghyson wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf ynglŷn â'r systemau asesu, y defnydd o'r gymuned leol ac ymwelwyr i'r cylch a datblygu'r ardal allanol. Yn ddiweddar, mae'r pwyllgor rheoli newydd a'r arweinydd newydd yn dechrau mynd i'r afael yn effeithiol â'r agweddau a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Ceir cysylltiadau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r rheini, yn yr atebion i'r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r cylch ac yn gwerthfawrogi'r safonau'r gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â'r staff.

Maent yn cael eu hysbysu'n dda o gyflawniadau a chynnydd eu plant sy'n eu helpu i gefnogi dysgu eu plant.

Erbyn i'r plant adael y cylch, mae'r rhieni yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r cysylltiadau gyda'r ysgol leol, y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol yn dda.

Mae'r cylch yn elwa o'r gefnogaeth a ddarperir gan staff yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae'r cyngor a'r awgrymiadau wedi bod yn gymorth i symud y cylch ymlaen ac wedi cyfrannu at welliannau yn y safonau o ddarpariaeth ac arweinyddiaeth.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r newidiadau yn y staffio wedi achosi anghysondebau yn ddiweddar. Erbyn nawr, caiff staffio, adnoddau a'r cyllid eu rheoli'n dda. Mae gwybodaeth y staff yn datblygu drwy hyfforddiant briodol i gyflwyno cwricwlwm addas. Caiff arbenigedd y staff ei ddefnyddio'n dda ac maent yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr â'i gilydd i wella cyflawniadau'r plant.

Mae gan y cylch ddigon o adnoddau ac fe'u defnyddir yn effeithiol i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy'n annog annibyniaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu.  Nid yw'r cylch yn defnyddio'r ardal allanol yn effeithiol.

Mae'r cylch yn defnyddio'r adeilad yn effeithiol a darparu profiadau priodol sydd wedi cael eu cynllunio'n dda.  Mae cefnogaeth asiantaethau allanol wedi sicrhau gwell cysondeb, safonau da a gwell ddarpariaeth yn ddiweddar.

Er bod llawer wedi'i gyflawni yn ddiweddar, nid yw'r cynllunio strategol a'r blaenoriaethau datblygu wedi cael yr amser i sefydlu ac effeithio'n briodol ar y cynllunio, yr asesu a'r ddarpariaeth yn ardaloedd penodol fel gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd.

Er bod cynnydd sylweddol yn ddiweddar iawn mewn nifer o feysydd, mae'r cylch yn rhoi gwerth digonol am arian ar hyn o bryd.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni a gofalwyr

Ymatebodd 14 o rieni a gofalwyr i’r holiaduron. Roedd yr holl rieni a gofalwyr yn bositif iawn am holl waith y cylch heblaw am un riant a nododd nid oedd amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae’r ymatebion yma’n cymharu’n ffafriol iawn gyda chymariaethau meincnodol cenedlaethol.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae bron pob plentyn yn hapus yn y cylch. Mae eu brwdfrydedd yn amlwg wrth iddynt gyrraedd a chwrdd â’u cyfoedion. Mae bron pob un ohonynt yn hunan hyderus wrth wybod eu bod yn cael eu cefnogi’n dda a bod ganddynt dasgau priodol sy’n ennyn eu diddordeb.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |